CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
17 Mai 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, A Evans, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 5 Ebrill 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mewn llaw
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Nid yw Gan Bwyll wedi derbyn yr wybodaeth am gyflymder traffic gan y Cyngor Sir. Byddant yn atgoffa y Cyngor Sir
4.3	**Maes chwarae** - Mae'r gwaith ail osod y giat a'r ffens wedi cael ei wneud. Cytunwyd i osod cadwyn a chlo ar y giat a trefnu i'r contractwr torri gwair cael allwedd. Cynigodd Cyng N Jones prynu cadwyn a chlo.
4.4	**Hysbysffwrdd Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl i Sion Jones gwneud y gwaith a trwsio hysbysffwrdd Penmynydd.
4.5	**Mynwent Gilead** - Derbyniwyd neges gan Cyng Meirion Jones yn dweud mae'r gwaith wedi ei wneud i'r glaswellt a'r gwrych.
4.6	**Mast Penmynydd** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C99W/LUC Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer codi estyniad a gafwyd caniatad cynllunio o dan Dosbarth A, Rhan 1 Atodlen 2 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad A Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013 yn Nant y Felin, Bryn Gof, Star - dim sylwadau
5.2	41C142 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 2 Glanffrwd, Lon Penmynydd, Penmynydd - dim sylwadau
5.3	41C141/SCR Barn sgrinio ar gyfer newid defnydd tir yn safle i deithwyr gan gynnwys codi pedwar bloc amwynder a datblygiadau cysylltiedig eraill ar dir oddi Penhesgyn, Porthaethwy - mae'r safle rhy agos i Cae Uchaf
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Gan Bwyll - gweler 4.2
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd i dalu yr yswiriant blynyddol - Zurich Municipal £301.24
	Llofnod **Cadeirydd** **07.06.17**

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Seddau Gwag - Mae gan y Cyngor 3 sedd wag. Mae'r Clerc wedi paratoi hysbysebion
8.2	Canolfan Penmynydd - Cytunwyd i cynnal cyfarfod cyhoeddus ym mis Mehefin i greu pwyllgor i rhedeg y Ganolfan (i gynnwys 2 aelod o'r Cyngor). Bydd y Clerc yn gweithio allan costau rhedeg y Ganolfan.
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
9.1	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **07.06.17**